



**GWELLIANNAU ECOLEGOL**

Byddwn yn cymryd agwedd uchelgeisiol i sicrhau cynnydd net mewn bioamrywiaeth. Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr o'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn i ddatblygu prosiect sy'n gwella, adfer a chreu cynefinoedd i gacwn i ffynnu.

**PARTH LLIFOGYDD**

Wrth ddylunio safleoedd solar, rydym yn blaenoriaethu gosod paneli solar mewn ardaloedd lle mae llai o berygl llifogydd. Rydym yn gwerthuso pob opsiwn yn ofalus i leihau dŵr ffo. Byddwn yn cynhyrchu asesiad / adroddiad i ddangos na fydd y prosiect yn cynyddu perygl llifogydd, a lle bo modd, sut y gall leihau perygl llifogydd.

**COETIR HYNAFOL**

Byddwn yn gwarchod coetir hynafol yn ofalus trwy gynnwys parth clustogi. Fel rhan o'r prosiect, byddwn hefyd yn ystyried opsiynau sut y gallem wella'r ardal warchoddedig hon.

**ADEILAD RHESTREDIG GRADD 2**

Byddwn yn defnyddio clustogfa i warchod unrhyw asedau treftadaeth, megis adeiladau rhestredig.

**GWARCHODFA NATUR / PARC CENEDLAETHOL**

O fewn y safle hwn, byddwn yn asesu sut y gall ein gwelliannau i gynefinoedd ategu rhinweddau ecolegol y Parc Cenedlaethol. Bydd plannu o amgylch y ffin yn helpu cuddio'r prosiect gan gynnwys o'r Parc Cenedlaethol.

**HAWL TRAMWY CYHOEDDUS**

Rydym yn asesu opsiynau i adleoli hawliau tramwy cyhoeddus ar y safle. Byddai mynediad i'r coetir hynafol yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod gweithredu. Gallai adleoli'r traciau hyn ar hyd ffin y de-orllewin wella profiad cerddwyr o fyd natur.



- Ffin y safle
  - Coetir Hynafol
  - Parth llifogydd 2
  - Parth llifogydd 3
  - Parciau Cenedlaethol
  - Henebion
- Adeiladau Rhestredig**
- I
  - II
  - II\*
- Hawliau Tramwy

**Cyfyngiadau**

|                                   |                     |                        |
|-----------------------------------|---------------------|------------------------|
| Enw Prosiect : Alleston           |                     |                        |
| Canol Tudalen:<br>200,508 199,943 | Rhif Adolygu.<br>R1 |                        |
| Arlunio gan:<br>KT                | Gwirio gan:<br>CBD  | Dyddiad:<br>24/11/2023 |

0 0.125 0.25 0.5 Km  
1:10,000 on A3

Ordnance Survey © Crown Copyright 2023. All rights reserved. Licence number 100034829.